OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 3108 (Cy.287)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Cynllun Cychwyn Iach (Disgrifio Bwyd Cychwyn Iach) (Cymru) 2006

Wedi'u gwneud	- -	*22 Tachwedd 2006*
Yn dod i rym	- -	*27 Tachwedd 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pŵer a roddwyd iddo gan adran 13(1) a (6) o Ddeddf Safonau Gofal 1988(**1**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Cynllun Cychwyn Iach (Disgrifio Bwyd Cychwyn Iach) (Cymru) 2006 a deuant i rym ar 27 Tachwedd 2006.

(2) Yn y Rheoliadau hyn:

ystyr "buddiolwr" ("*beneficiary*") yw person sydd â hawl i fudd-dal yn unol â rheoliadau 3 a 4 o'r prif reoliadau;

ystyr "bwyd Cychwyn Iach" ("*Healthy Start food*") yw'r bwyd a bennir yng Ngholofn 1 (categori o fwyd) yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn fel y'i goleddfir yng Ngholofn 2 o'r Atodlen honno;

ystyr "cynllun Cychwyn Iach" ("*Healthy Start scheme*") yw'r cynllun a sefydlwyd gan y prif Reoliadau;

ystyr "fitaminau Cychwyn Iach" ("*Healthy Start vitamins*") yw'r fitaminau a bennir yn rheoliad 3; ac

ystyr "y prif Reoliadau" ("*the principal Regulations*") yw Rheoliadau'r Cynllun Cychwyn Iach a Bwyd Lles (Diwygio) 2005(**2**).

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

2. Nodir bwyd Cychwyn Iach o ran gweithredu'r cynllun Cychwyn Iach yng Nghymru fel a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(**1**) 1988 p.7. Amnewidiwyd adran 13 o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1988 gan adran 185 o Ddeddf Iechyd a Gofal cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (p. 43).

(**2**) O.S. 2005/3262, fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2006/589 a Rheoliadau'r Cynllun Cychwyn Iach a Bwyd Lles (Diwygio Rhif 2) 2006 (OS 2006/2818).